NASUWT
The Teachers' Union

**Rhestr wirio ac amserlen ar gyfer Cynrychiolwyr Cymdeithasau Lleol Etholedig i Gynhadledd Flynyddol 2025**

Mae'r rhestr wirio hon yn nodi'r amserlen y bydd yr Undeb Cenedlaethol yn ei dilyn a'r camau y mae angen i'r Undeb Cenedlaethol a'r Cymdeithasau Lleol eu cymryd i fodloni'r broses ofynnol ar gyfer ethol, dilysu a chofrestru Cynrychiolwyr i'r Gynhadledd Flynyddol.

1. Eleni bydd nifer y Cynrychiolwyr Etholedig a neilltuir i'ch Cymdeithas Leol yn seiliedig ar eich aelodaeth ym mis Ionawr 2024.

2. Yn yr **wythnos yn dechrau 29 Gorffennaf 2024** mae'r Undeb Cenedlaethol yn anfon hysbysiad at yr holl aelodau yn nodi, os ydynt yn dymuno mynegi diddordeb mewn ceisio enwebiad fel Cynrychiolydd Etholedig i'r Gynhadledd Flynyddol, y dylent gysylltu â'u Cymdeithas Leol cyn gynted â phosibl er mwyn cofrestru eu diddordeb, a lle bo modd, mynychu'r cyfarfod lle mae enwebiadau'n cael eu trafod.

3. **29 Gorffennaf 2024** dylai Cymdeithasau Lleol annog aelodau i geisio cael eu henwebu fel Cynrychiolydd Etholedig ar gyfer y Gynhadledd. Mae templed o lythyr ynghlwm os dymunwch ei ddefnyddio.

4. Bydd yr Undeb Cenedlaethol yn anfon e-bost yn atgoffa o'r broses enwebu i bob aelod yn ystod y cyfnod enwebu.

5. Os bydd y Gymdeithas Leol yn derbyn mwy o enwebiadau na lleoedd a ariennir, bydd angen i'r Gymdeithas Leol gynnal pleidlais gudd mewn cyfarfod â chworwm neu, fel arall, cynhelir pleidlais ymhlith aelodau'r Gymdeithas Leol.

6. Bydd yr Undeb Cenedlaethol yn dilysu ac yn cofrestru'r holl enwebeion ar gyfer y Gynhadledd Flynyddol ar ôl derbyn y Ffurflen ER1 a'r gwaith papur cysylltiedig gan y Gymdeithas Leol a gyflwynir erbyn y dyddiad cau, sef **7 Mawrth 2025, ac yn cadarnhau i'r Gymdeithas Leol pan fydd y rhain wedi'u cofrestru'n llwyddiannus.**

7. Bydd angen i'r Gymdeithas Leol sicrhau bod unrhyw enwebiadau a ddaw i law na chawsant eu hethol yn llwyddiannus yn cael eu hysbysu a sicrhau nad yw'r aelodau hynny wedi archebu unrhyw lety.

Gellir cynnwys y cyfarfod hwn a'r eitem agenda yn y llythyr Dyddiadau Allweddol i aelodau.